# Trefniadau Goruchwylio Safonau'r Gymraeg

## 1.0 Cymeradwyo

1.1 Mae'r cyrff mewnol canlynol wedi cymeradwyo Safonau'r Gymraeg a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer cyflawni gofynion y Safonau yn y Brifysgol:

- Grŵp Gweithredol y Brifysgol
- Cyngor y Brifysgol

## 2.0 Gweithredu

2.1 Cyfrifoldeb Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg y Brifysgol yw i gefnogi unigolion ac adrannau a sicrhau eu bod yn ymwybodol o ofynion Safonau'r Gymraeg.

2.2 Mae Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg yn dilyn rhaglen y Cynllun Gweithredu a fydd yn cael ei ddiwygio'n flynyddol.

2.3 Mae gan bob cyfadran, adran academaidd a gwasanaeth proffesiynol yn y Brifysgol gyfrifoldeb cyffredinol dros weithredu Safonau'r Gymraeg yn eu hadrannau eu hunain sy'n berthnasol i'w gwaith gan gynnwys cadw cofnodion a monitro.

## 3.0 Monitro

3.1 Mae Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg yn monitro cydymffurfiaeth â'r Safonau trwy ddulliau amrywiol sy'n cynnwys llunio gweithdrefnau a chanllawiau, ymweld ag adrannau, paratoi adroddiadau a chasglu data ynghyd â chynnal arolygon a grwpiau defnyddwyr ac ymarferion hap-wirio.

## 4.0 Cwynion

4.1 Mae gan y Brifysgol weithdrefn ar gyfer derbyn cwynion a sylwadau am fethiannau honedig i gydymffurfio â'r Safonau https://www.aber.ac.uk/cy/cgg/bilingual-policy/complaints-procedure/

## 5.0 Adrodd

5.1 Paratoir Adroddiad Blynyddol ar weithredu'r Safonau gan ddarparu gwybodaeth yn unol â'r gofynion a nodir yn Hysbysiad Cydymffurfio Safonau'r Iaith Gymraeg. Caiff yr Adroddiad Blynyddol eu cymeradwyo gan Grŵp Gweithredol y Gymraeg, Grŵp Gweithredol y Brifysgol, a Chyngor y Brifysgol.

5.2 Cyflwynir adroddiadau cynnydd ar y gwaith ac adroddiadau monitro ar brosiectau penodol sy'n deillio o'r Safonau dair gwaith y flwyddyn i gyfarfodydd Grŵp Gweithredol y Gymraeg.

5.3 Mae Grŵp Gweithredol y Gymraeg yn gyfrifol am arwain a monitro Strategaeth Cyfrwng Cymraeg y Brifysgol, sef y Cynllun Cyfannol Strategol i'r Gymraeg, ac yn adrodd ar gydymffurfiaeth y Brifysgol â'r Safonau Iaith gan ddatblygu hyfforddiant a chyngor priodol.[1]

## 6.0 Gwybodaeth bellach

6.1 Ceir rhagor o wybodaeth am drefniadau goruchwylio'r Safonau Iaith yn y Brifysgol drwy gysylltu â'r canlynol:

- Dylan Hughes, Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg dyh8@aber.ac.uk
- Lowri Angharad Jones, Swyddog Datblygu Gwasanaethau'r Gymraeg lwj@aber.ac.uk

[1] Mae Cylch Gorchwyl y Grŵp yn darparu rhagor o wybodaeth am ei gyfrifoldebau a'r modd y'u cyflawnir.